Covanta Energy Update

Statement of Community Consultation for Brig y Cwm EfW facility

Producing energy from the waste we can't recycle

Covanta Energy is proposing to build a £400 million Energy from Waste (EfW) plant on the outskirts of Merthyr Tydfil and near to the boundary with Caerphilly County Borough. We are making an application for a development consent order (DCO) for the Brig y Cwm EfW plant and this Statement of Community Consultation outlines the key points of the proposal and also explains how you can comment on it before the application is submitted. The facility will require an Environmental Impact Assessment (EIA) under the Infrastructure Planning Regulations 2009, which is currently being prepared.

Brig y Cwm will generate energy from household, commercial and industrial waste that cannot realistically be recycled. It will use this non-recyclable waste, which at present is being buried in landfill sites, to produce electricity and heat for the next 35 years.

Initial community consultation was carried out in Merthyr Tydfil and Caerphilly county boroughs in 2009, shortly after the proposal was announced. This update provides details on the next important stage in our community consultation process.

Key points of the proposal

The site of the proposed facility covers approximately 20 hectares adjacent to the Cwmbargoed rail head and largely within the boundary of the existing Ffos y Fran Land Reclamation Scheme. Some important facts about Brig y Cwm are:

- It will generate approximately 67MW of electricity (net) from approximately 750,000 tonnes of municipal, commercial and industrial waste per year.
- This electricity is more than 50 per cent renewable, and could supply more than is needed by all the homes in the whole of Merthyr and Caerphilly county boroughs.
- Around 75 per cent of the waste will arrive by rail, with local waste transported by road, as at present.
- A visitor and education centre will be an integral part of the scheme.
- New habitats will be created for wildlife, to mitigate any impact of the development.
- The facility will include internal roads, parking space, a gatehouse, fuel storage area, landscaping and office accommodation.
- Brig y Cwm will provide around 65 permanent on-site jobs, and up to 650 jobs during the peak construction period.

Surplus heat from the plant could be used to attract other companies to the area, providing additional local employment.

Other aspects of the scheme are not intended to form part of the DCO application. This includes the connection to the electricity grid by overhead or underground power lines. The underground heat pipeline to provide heat for use by potential new developments by other organisations is also not currently intended to form part of the DCO. Information relating to both these aspects will be included in the Preliminary Environmental Information for the main facility.

About Covanta Energy

Covanta Energy is the world's largest operator of EfW facilities, with 45 plants. The technology we use is an environmentally sound alternative to burying waste in landfill sites, where it leaches damaging gases into the atmosphere for decades. It is also a more cost effective waste disposal policy for local authorities at a time when landfill taxes are set to rise sharply throughout the UK.

Covanta's international headquarters are in the USA, and we have established a Wales base in Merthyr Tydfil.

The proposed Brig y Cwm Energy from Waste facility

The consultation strategy

We are following up our earlier consultation with local people with more detailed information, in advance of the DCO application to the UK's Infrastructure Planning Commission (IPC), which has been set up to consider nationally significant infrastructure projects. The IPC examines and determines applications in accordance with National Policy Statements.

Covanta is required to explain to the public, businesses and people living in the vicinity of Brig y Cwm how we will consult about the application, including the Preliminary Environmental Information. We are seeking feedback from local authorities and a wide range of other bodies.

Our consultation approach is explained in this Statement of Community Consultation, which is being made widely available.

The story so far

In February 2009 Covanta announced the Brig y Cwm proposal and followed-up with consultation days locally. People who attended were able to ask the project team about the proposal and give their views.

During this consultation and through advertising in local media, people were invited to join a Community Liaison Panel (CLP). This comprises 14 people from Merthyr Tydfil and Caerphilly and meets regularly to discuss issues, obtain information and feedback views to Covanta as it develops its detailed plans. The CLP is a valuable link between Covanta and local communities.

There has also been ongoing consultation with various other organisations. These include: Merthyr Tydfil and Caerphilly County Borough Councils, Environment Agency Wales, the Countryside Council for Wales, Network Rail and the Welsh Assembly Government.

The next steps

Covanta now wishes to share the more detailed (but still draft) proposals for Brig y Cwm with the local communities. We are making available the preliminary findings from Covanta's emerging Environmental Impact Assessment as both a Report and Non-Technical Summary. These documents will explain the scheme, set out the alternatives considered and present the emerging findings of the Environmental Impact Assessment on noise, air quality, landscape, traffic, ecology and other environmental topics. Other draft application documents will also be made available over the next few months and will be seen on the Covanta website. Please check it regularly for updated information.

www.covantaenergy.co.uk

COVANTA ENERGY
for a cleaner world

Location of the proposed Brig y Cwm facility

Covanta is consulting local authorities, other legally defined organisations and local communities with regard to these proposals. You will also be able to read the documents at the forthcoming exhibitions at locations listed below and on our website. We can supply copies for a small charge. A Non-Technical Summary of the Preliminary Environmental Information will be available free of charge.

It is important for Covanta to explain how the benefits of the development – such as energy generation, waste management, community trust funds and job creation – are secured. We will also point out possible negative implications of the project, such as emissions and visual impact, and explain how they will be managed. Covanta also intends to provide community benefits – and further details of these will be publicised when available.

The planned consultation days

Venue	Date	Time
Merthyr Tydfil Rugby Club	Tuesday 8th June	12pm – 7pm
St David's Community Centre, Rhymney	Wednesday 9th June	12pm – 7pm
Fochriw Community Centre	Saturday 12th June	10am – 4pm
Trelewis Community Centre	Saturday 19th June	10am – 4pm
Dowlais Rugby Club	Wednesday 23rd June	12pm – 7pm
Pontlottyn Community Centre	Thursday 24th June	12pm – 7pm

A chance to have your say

Your opinion on the proposed Brig y Cwm development and the Preliminary Environmental Information is important. Every response received will be considered as Covanta completes its Environmental Impact Assessment and submits the application to the IPC. During June Covanta will be holding the consultation events and encouraging you to consider the plans and read the Preliminary Environmental Information. Over this period Covanta will:

- Deliver information about the project to around 25,000 addresses within approximately 5km of the site. (This information will also be available on the Covanta website.)
- Continue meetings of the Community Liaison Panel. (Notes from the meetings are available on the website.)
- Hold staffed consultation days in Merthyr and Caerphilly county boroughs, so you can speak directly to the project team. You will also see photomontages and computer modelling showing how Brig y Cwm would appear in the landscape.
- Write directly to those people who have asked to be kept informed as well as community councils (Bedlinog, Rhymney and Darran Valley), local community, environmental and business groups including councillors, MPs and AMs, advising them of the exhibitions and the proposals.
- Further publicise the proposals and the exhibitions via news releases to the local papers, radio and television and by advertisements in local media.
- Display posters, adverts and flyers throughout the locality encouraging people to find out about the project and make representations.
- Place the Preliminary Environmental Report, which describes the proposals and contains the Preliminary Environmental Information, in public places for at least 28 days from Monday 7 June.

To help local communities understand and engage with the IPC process, Planning Aid is an initiative that provides free independent and professional advice and support to communities and individuals who cannot afford to pay planning consultants' fees. For further information visit: **www.planningaidwalesorg.uk**.

For more information and to tell us what you think, please:

- contact us by email: Covanta@wepr.co.uk
- call on 02920 556143
- write to: Covanta Energy, Orbit Centre, Rhydycar Business Park, Merthyr Tydfil CF48 1DL

Covanta intends to submit its application for the DCO by the autumn. It is therefore important that if you wish to express a view you should do so without delay.

Your response in respect of the Preliminary Environmental Information for the proposed Brig y Cwm Energy from Waste Facility must be made in writing using the post or email to the addresses given above by **Friday 9 July 2010**.

If you are responding, please:

- state the grounds why you are making a response or representation
- tell Covanta who is making the response or representation
- provide an address to which correspondence relating to the response or representation may be sent.

Covanta will be reporting to the IPC on all the feedback it receives from local people on how it intends to address significant relevant responses. Please note, your responses and other representations may be made public as part of the consultation process.

Diweddariad gan Ynni Covanta

Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned ar gyfer cyfleuster Ynni-o-Wastraff Brig y Cwm

Cynhyrchu ynni o'r gwastraff na allwn ei ailgylchu

Mae Covanta Energy yn bwriadu adeiladu cyfleuster Ynni-o-Wastraff werth £400 miliwn ar gyrion Merthyr Tudful ac wrth ymyl y ffin gyda Bwrdeistref Sirol Caerffili. 'Rydym yn gwneud cais am orchymyn caniatâd datblygu ar gyfer cyfleuster Ynni-o-Wastraff Brig y Cwm, ac mae'r Datganiad Ymgynghori hwn â'r Gymuned yn amlinellu ffeithiau allweddol y cynigiad ac mae hefyd yn egluro sut y gallwch chi fwrw sylw arno cyn bod y cais yn cael ei gyflwyno. Fe fydd yn rhaid i'r cyfleuster gael Asesiad Effeithiau Amgylcheddol (EIA) o dan Reoliadau Cynllunio Seilwaith 2009, sydd wrthi'n cael ei baratoi.

Fe fydd Brig y Cwm yn cynhyrchu ynni o wastraff cartrefi, gwastraff masnachol a diwydiannol nad oes modd yn realistig ei ailgylchu. Fe fydd yn defnyddio'r gwastraff hwn nad oes modd ei ailgylchu, sydd ar hyn o bryd yn cael ei gladdu mewn safleoedd tirlenwi, i gynhyrchu trydan a gwres ar gyfer y pymtheng mlynedd ar hugain nesaf.

Fe gynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol â'r gymuned ym mwrdeistrefi sirol Merthyr Tudful a Chaerffili yn 2009, yn fuan ar ôl i'r cynigiad gael ei gyhoeddi. Mae'r diweddariad hwn yn darparu manylion am y cyfnod pwysig nesaf yn ein proses o ymgynghori â'r gymuned.

Ffeithiau allweddol y cynigiad

Mae safle'r cyfleuster arfaethedig yn cwmpasu oddeutu 20 hectar o dir gerllaw pen cledrau Cwmbargoed ac mae i raddau pell o fewn ffin Cynllun Adfer Tir presennol Ffos y Fran. Rhai o'r ffeithiau allweddol am Brig y Cwm yw:

- Fe fydd yn cynhyrchu oddeutu 67 megawat o drydan (net) o oddeutu 750,000 tunnell fetrig o wastraff trefol, masnachol a diwydiannol bob blwyddyn.
- Mae'r trydan hwn fwy na 50 y cant yn adnewyddadwy, ac fe allai gyflenwi mwy nag sydd ei angen i gyflenwi'r cartrefi ym mwrdeistrefi sirol Merthyr a Chaerffili i gyd.
- Fe fydd tua 75 y cant o'r gwastraff yn cyrraedd ar y rheilffyrdd, gyda gwastraff lleol yn cael ei gludo ar y ffyrdd, fel ar hyn o bryd.
- Fe fydd canolfan ymwelwyr ac addysg yn rhan annatod o'r cynllun.
- Fe fydd cynefinoedd newydd yn cael eu creu ar gyfer bywyd gwyllt, i liniaru unrhyw effaith a gaiff y datblygiad.
- Fe fydd y cyfleuster yn cynnwys ffyrdd mewnol, lle parcio, porthdy, man storio tanwydd, tirweddu ac adeiladau ar gyfer swyddfeydd.
- Fe fydd Brig y Cwm yn darparu tua 65 o swyddi parhaol ar y safle, a hyd at 650 o swyddi pan fydd y cyfnod adeiladu ar ei anterth.

Fe ellid defnyddio gwres dros ben o'r ffatri i ddenu cwmnïau eraill i'r ardal, gan ddarparu cyflogaeth leol ychwanegol.

Nid yw'n fwriad bod agweddau eraill o'r cynllun yn ffurfio rhan o'r cais gorchymyn caniatâd datblygu. Bydd hyn yn cynnwys y cysylltiad i'r grid trydan drwy wifrau pŵer uwchben neu dan ddaear. Nid yw'n fwriad ar hyn o bryd hefyd i'r biblinell wres dan ddaear i ddarparu gwres i'w ddefnyddio gan ddatblygiadau newydd dichonol fyddai gan sefydliadau i ffurfio rhan o'r cais gorchymyn caniatâd datblygu. Er fe fydd gwybodaeth yn ymwneud â'r ddau agwedd yma yn cael ei chynnwys yn y Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol ar gyfer y prif gyfleuster.

Ynglŷn â Covanta Energy

Cyfleuster Ynni-o-Wastraff arfaethedig Brig y Cwm

Covanta yw gweithredwr mwyaf y byd yn y maes Ynni-o-Wastraff gyda 45 o gyfleusterau. Mae'r dechnoleg 'rydym yn ei defnyddio yn ddewis amgen sy'n amgylcheddol ddoeth, yn hytrach na chladdu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi, ble mae'n trwytholchi nwyon dinistriol i'r atmosffer am ddegawdau. Mae hefyd yn bolisi gwaredu gwastraff mwy cost-effeithiol i awdurdodau lleol ar adeg pan fo trethi tirlenwi ar fin codi'n serth drwy'r Deyrnas Unedig i gyd.

Mae pencadlys rhyngwladol Covanta yn yr UDA, ac 'rydym wedi sefydlu canolfan i Gymru ym Merthyr Tudful.

Y strategaeth ymgynghori

'Rydym yn dilyn ein hymgynghoriad cynharach gyda phobl leol gyda gwybodaeth fanylach, o flaen y cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu i Gomisiwn Cynllunio Seilwaith y Deyrnas Unedig, sydd wedi'i sefydlu i ystyried prosiectau seilwaith sy'n genedlaethol arwyddocaol. Mae'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn archwilio ac yn penderfynu ar geisiadau yn unol â Datganiadau Polisi Cenedlaethol.

Mae yna reidrwydd ar Covanta i egluro i'r cyhoedd, busnesau a phobl sy'n byw yng nghyffiniau Brig y Cwm sut y byddwn ni'n ymgynghori ynglŷn â'r cais, yn cynnwys y Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol. 'Rydym yn ymofyn adborth oddi wrth awdurdodau lleol ac ystod eang o gyrff eraill.

Mae'n dull o weithredu drwy ymgynghori yn cael ei egluro yn y Datganiad Ymgynghori hwn â'r Gymuned, sy'n cael ei roi ar gael yn helaeth.

Yr hanes hyd yn hyn

Ym mis Chwefror, 2009, fe gyhoeddodd Covanta gynigiad Brig y Cwm, ac fe wnaethant ddilyn hyn gyda diwrnod ymgynghori yn lleol. 'Roedd pobl a wnaeth fynychu yn gallu holi'r tîm prosiect am y cynigiad a rhoi'u barn.

Yn ystod yr ymgynghoriad hwn a thrwy hysbysebu yn y cyfryngau lleol, fe wahoddwyd pobl i ymuno â Phanel Cyswllt Cymunedol. Mae hwn yn cynnwys 14 o bobl o Ferthyr Tudful a Chaerffili, ac mae'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion, i gael gwybodaeth ac i adborthi barn i Covanta fel mae'n datblygu'i gynlluniau manwl. Mae'r Panel Cyswllt Cymunedol yn gysylltiad gwerthfawr rhwng Covanta a chymunedau lleol.

Mae yna hefyd ymgynghori parhaus wedi bod gydag amrywiol sefydliadau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys: Cynghorau Bwrdeistrefi Sirol Merthyr Tudful a Chaerffili, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Network Rail a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

www.covantaenergy.co.uk

COVANTA ENERGY
for a cleaner world

Lleoliad cyfleuster arfaethedig Brig y Cwm

Y camau nesaf

Mae Covanta yn awr yn dymuno rhannu'r cynigion manylach (ond sydd eto yn dal yn ddrafft) ar gyfer Brig y Cwm gyda'r cymunedau lleol. 'Rydym yn rhoi ar gael y wybodaeth ragarweiniol sydd yn dechrau ymddangos oddi wrth Asesiad Effeithiau Amgylcheddol Covanta ar ffurf Adroddiad a Grynodeb Annhechnegol. Bydd y ddogfennau yma yn egluro'r cynllun, yn nodi'r dewisiadau eraill a ystyriwyd, ac yn cyflwyno'r canfyddiadau sy'n dechrau ymddangos gan yr Asesiad Effeithiau Amgylcheddol ynglŷn â sŵn, ansawdd aer, tirwedd, traffig, ecoleg a phynciau amgylcheddol eraill. Fe fydd dogfennau cais drafft hefyd yn cael eu rhoi ar gael dros yr ychydig fisoedd nesaf, ac fe fyddant ar gael ar wefan Covanta. Cofiwch gael golwg arni'n rheolaidd am wybodaeth wedi'i diweddaru.

Mae Covanta yn ymgynghori ag awdurdodau lleol, sefydliadau eraill a ddiffinnir yn gyfreithiol a chymunedau lleol parthed ei cynlluniau. Fe fyddwch hefyd yn gallu darllen y ddogfennau yn yr arddangosfeydd sydd ar ddod mewn lleoliadau a restrir isod ac ar ein gwefan. Fe allwn gyflenwi copïau am dâl bychan. Fe fydd yna Grynodeb Annhechnegol o'r Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol ar gael yn ddi-dâl.

Mae'n bwysig bod Covanta yn egluro sut mae buddion y datblygiad - fel cynhyrchu ynni, rheoli gwastraff, cronfeydd ymddiriedolaethau cymunedol a chreu swyddi - yn cael eu sicrhau. 'Rydym hefyd yn tynnu sylw at oblygiadau negyddol posibl y prosiect, megis allyriadau ac effeithiau gweledol, ac 'rydym yn egluro sut y byddant yn cael eu rheoli. Mae Coventa hefyd yn bwriadu darparu buddion cymunedol - ac fe fydd rhagor o fanylion am y rhain yn cael cyhoeddusrwydd pan fyddant ar gael.

Y diwrnodau ymgynghori arfaethedig

Man Cyfarfod	Dyddiad	Amser
Clwb Rygbi Merthyr Tudful	Dydd Mawrth, 8fed o Fehefin	12pm – 7pm
Canolfan Gymunedol Dewi Sant, Rhymni	Dydd Mercher, 9fed o Fehefin	12pm – 7pm
Canolfan Gymunedol Fochriw	Dydd Sadwrn, 12fed o Fehefin	10am – 4pm
Canolfan Gymunedol Trelewis	Dydd Sadwrn, 19eg o Fehefin	10am – 4pm
Clwb Rygbi Dowlais	Dydd Mercher, 23ain o Fehefin	12pm – 7pm
Canolfan Gymunedol Pontlotyn	Dydd Iau, 24ain o Fehefin	12pm – 7pm

Cyfle ichi ddweud eich dweud

Mae'ch barn am ddatblygiad arfaethedig Brig y Cwm a'r Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol yn bwysig. Fe fydd pob ymateb a dderbynnir yn cael ei ystyried, fel mae Covanta yn cwblhau'i Asesiad Effeithiau Amgylcheddol ac yn cyflwyno'r cais i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith. Yn ystod mis Mehefin, fe fydd Covanta yn cynnal y digwyddiadau ymgynghori ac yn eich annog chi i ystyried y cynlluniau ac i ddarllen y Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol. Yn ystod y cyfnod hwn, fe fydd Covanta yn:

- Darparu gwybodaeth am y prosiect i thua 25,000 o gyfeiriadau o fewn oddeutu 5 cilometr o'r safle. (Fe fydd y wybodaeth hon hefyd ar gael ar wefan Covanta.)
- Parhau â chyfarfodydd y Panel Cyswllt Cymunedol. (Mae nodiadau o'r cyfarfodydd ar gael ar y wefan.)
- Cynnal diwrnodau ymgynghori ble bydd staff yn bresennol ym mwrdeistrefi sirol Merthyr a Chaerffili, fel y gallwch chi siarad yn uniongyrchol gyda'r tîm prosiect. Fe wnewch hefyd weld ffotogyfosodiadau a modelau cyfrifiadurol yn dangos sut y byddai Brig y Cwm yn ymddangos yn y dirwedd.
- Ysgrifennu yn uniongyrchol at y bobl hynny sydd wedi gofyn am gael eu hysbysu'n rheolaidd, yn ogystal â'r cynghorau gymunedol (Bedlinog, Rhymni a Cwm Darran), gymuned leol, grwpiau amgylcheddol a busnes, yn cynnwys cynghorwyr, Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Cynulliad, gan eu hysbysu hwy o'r arddangosfeydd a'r cynigion.
- Rhoi rhagor o gyhoeddusrwydd i'r cynigion ac i'r arddangosfeydd drwy gyfrwng datganiadau newyddion i'r papurau lleol, radio a theledu, a thrwy hysbysebion yn y cyfryngau lleol.
- Arddangos posteri, hysbysebion a thaflenni hysbysu drwy'r gymdogaeth i gyd, yn annog pobl i ganfod gwybodaeth am y prosiect a gwneud sylwadau.
- Gosod yr Adroddaid Amgylcheddol Ragarweiniol sy'n disgrifio'r cynigion ac yn cynnwys y Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol mewn mannau cyhoeddus am o leiaf 28 o ddiwrnodau o Dydd Llun, 7 Mehefin.

I gynorthwyo cymunedau lleol i ddeall ac i ymgysylltu â phroses y Comisiwn Cynllunio Seilwaith, mae Cymorth Cynllunio yn fenter sy'n darparu cyngor a chymorth annibynnol a phroffesiynol am ddim i gymunedau ac unigolion na allant fforddio talu ffioedd ymgynghorwyr cynllunio. Am ragor o wybodaeth, ewch i: **www.planningaidwalesorg.uk**.

Am fwy o wybodaeth ac i ddweud wrthym beth 'rydych yn ei feddwl, a fyddech cystal â:

- cysylltu â ni drwy e-bost: Covanta@wepr.co.uk
- rhoi galwad ffôn ar 02920 556143
- ysgrifennu i: Covanta Energy, Canolfan Orbit, Parc Busnes Rhydycar, Merthyr Tudful CF48 1DL

Mae Covanta yn bwriadu cyflwyno'i gais ar gyfer gorchymyn caniatâd datblygu erbyn yr hydref. Mae hi felly'n bwysig eich bod yn mynegi'ch barn yn ddi-oed, os ydych yn dymuno gwneud hynny.

Yn gysylltiedig â'ch ymateb yn ymwneud â'r Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol ar gyfer y cyfleuster Ynni-o-Wastraff arfaethedig Brig y Cwm, mae'n rhaid i hyn gael ei gwneud yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r post neu e-bost i'r cyfeiriadau a roddir uchod erbyn **dydd Gwener, 9 Gorffennaf, 2010**.

Os ydych yn ymateb, a fyddech cystal â:

- datgan ar ba sail 'rydych chi'n gwneud ymateb neu sylw
- dweud wrth Covanta pwy sy'n gwneud yr ymateb neu'r sylw
- darparu cyfeiriad y gellir anfon gohebiaeth iddo yn ymwneud â'r ymateb neu'r sylw.

Fe fydd Covanta yn adrodd i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith ynglŷn â'r holl adborth mae'n ei dderbyn gan bobl leol ynglŷn â sut mae'n bwriadu rhoi sylw i ymatebion perthnasol sylweddol. Nodwch, os gwelwch yn dda, y gall eich ymatebion a sylwadau eraill gael eu gwneud yn gyhoeddus fel rhan o'r broses ymgynghori.